

NEWYDDLEN

Y NEWYDDION DIWEDDARAF I HOLL STAFF Y BRIFYSGOL



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

G'DAY BANGOR

Bu Rolf Harris yn ymweld â Phrifysgol Bangor yn ddiweddar i ffilmio ar gyfer ei gyfres BBC Wales *Rolf on Welsh Art* a fydd yn cael ei ddarlledu mis Medi eleni. Wrth ymweld, bu Rolf Harris hefyd yn cyfarfod â rhai o staff marchnata y Brifysgol ynghyd â myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i gefnogi'r gwaith.

Pwrpas yr ymweliad oedd edrych ar ddarluniau gan yr artist Brenda Chamberlain a aned ym Mangor. Roedd yn falch iawn o weld y darluniau gwreiddiol, gan ei bod wedi'u gweld o'r blaen ond dim ond ar ffurf print. Mae'r gweithiau yn rhan o Gasgliad Celf y Brifysgol sydd yn cael eu harddangos yn barhaol o amgylch y Brifysgol ■



SAFONAU ACADEMAIDD Y BRIFYSGOL YN DERBYN PLEIDLAIS O YMDDIRIEDAETH

Mae'r Brifysgol wedi derbyn pleidlais o ymddiriedaeth sylweddol yn ei gwaith o reoli ansawdd a safonau academiaidd yn dilyn 'arolwg sefydliadol' o bwys gan yr 'UK Quality Assurance Agency for Higher Education'. Caiff pob prifysgol ei hadolygu gan y QAA bob tua 5 mlynedd.

Roedd y broses adolygu yn cynnwys y canlynol: cyflwyno dogfen hunanwerthuso gan y Brifysgol, cyflwyniad ysgrifenedig annibynnol gan fyfyrwyr, cyfweiliadau gyda dros 75 o aelodau staff a myfyrwyr, ac archwilio dros 1,000 o ddogfennau'r Brifysgol.

Daeth y broses i ben gydag ymweliad wythnos o hyd ym mis Mai gan y tîm o 5 o adolygwyr allanol. Y canlyniad oedd dyfarniad o 'Hyder' yng nghadernid "rheolaeth bresennol y Brifysgol o ansawdd cyfleoedd dysgu myfyrwyr a safonau academiaidd, a'u rheolaeth debygol ar gyfer y dyfodol". Dyma'r uchaf o'r tri dyfarniad y gellir eu cael, ac mae'n hwb mawr i statws a phroffil academiaidd y Brifysgol.

Yn ogystal ag archwilio polisi a dulliau gweithredu cyffredinol y Brifysgol ar gyfer sicrhau ansawdd a safonau, talodd y tîm QAA sylw arbennig o agos at ddarpariaeth a gyflwynir mewn partneriaeth gyda

sefydliadau eraill (fel Prifysgol Aberystwyth neu Goleg Llandrillo, yn yr hyn y mae tua 400 o fyfyrwyr yn astudio am gymwysterau Prifysgol Bangor).

Cyhoeddir adroddiad llawn, ond bu i ganfyddiadau cychwynnol y tîm QAA hefyd dynnu sylw at y "nodweddion o arfer da" canlynol:

Gwaith Canolfan Dyslecsia Miles lle'r oedd ymchwil yn ychwanegu at y gefnogaeth i fyfyrwyr; Y cynllun Arweinwyr Cyfoed sy'n cyflwyno myfyrwyr i fywyd prifysgol; Gwaith Canolfan Bedwyr yn ychwanegu at ddarpariaeth Gymraeg.

Parhau ar dudalen 4

BRAF CWRDD Â
Elen ap Robert
p05

CYNALIADWYEDD
PrifBlaned
p06

GWOBRAU
Dathliadau
p09

GWIRFODDOLWYR
Gwobr Urdd
p11

YSBRIDOLI CYMRU
Canolfan Bedwyr
p12

FFAGL OLYMPAIDD
Matthew Davies
p15

CYMRODORIAETHAU ER ANRHYDDED

“Mae gan Fangor draddodiad cryf o gydnabod cyflawniadau dynion a merched o wahanol feysydd drwy gyflwyno Cymrodoriaeth er Anrhydedd. Mae ein Cymrodyr yn ychwanegu bri a chyfaredd i'r seremonïau lle rydym hefyd yn cydnabod llwyddiannau ein myfyrwyr, a dyna a ddigwyddodd eleni eto,” meddai Dr David Roberts, Cofrestrydd y Brifysgol.

Ymhlith y rhai a anrhydeddwyd eleni roedd:




Yr Athro **Malcolm David Evans OBE**, sy'n Athro Cyfraith Ryngwladol ym Mhrifysgol Bryste. Yn enedigol o Gymru, mae'n un o gyfreithwyr rhyngwladol mwyaf nodedig Prydain. Mae'n aelod o Grŵp Ymgynghorol yr Ysgrifennydd Tramor ar Hawliau Dynol ac yn gadeirydd is-bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar atal arteithio. Fe'i cyflwynwyd gan yr Athro Dermont Cahill, Pennaeth Ysgol y Gyfraith (dde).




Mae'r awdur a'r darlledwr arobryn, yr **Athro Steve Jones** yn Athro Geneteg yng Ngholeg Prifysgol Llundain (UCL). Mae'n golofnydd yn y *Daily Telegraph* ers 1992 ac wedi ysgrifennu nifer o lyfrau, gan gynnwys *The Language of the Genes* a enillodd Gwobr Llyfr Gwyddoniaeth yn 1994. Ar hyn o bryd mae'n Llywydd y Gymdeithas dros Addysg Gwyddoniaeth. Fe'i cyflwynwyd gan yr Athro David Shepherd, Dirprwy Is-Ganghellor (chwith).



Mae'r actor a'r awdur **John Gibb Marshall** (a adwaenir hefyd fel John Sessions), yn un o gyn-fyfyrwyr Bangor ac yn ddiweddar bu'n portreadu Edward Heath yn y ffilm *The Iron Lady*. Mae wedi cael gyrfa actio nodedig iawn ar lwyfan ac ar y sgrin, gan arbenigo mewn actio rhannau difrifol yn ogystal â hiwmor byrfyfyr. Mae ei berfformiadau'n cynnwys *Die Fledermaus*, *Henry V* a *The Merchant of Venice*, yn ogystal â *Spitting Image*, *Midsomer Murders*, *Judge John Deed*, *Dalziel and Pascoe* a *Dr Who* ymysg llawer iawn o berfformiadau eraill. Graddiodd o Fangor yn y 1970au. Fe'i cyflwynwyd gan yr Athro Tony Brown o Ysgol y Saesneg (dde).



Dechreuodd perchennog Gerddi Fferm Crug, **Bleddyn Wynn-Jones**, gasglu planhigion pan oedd ar daith yn Fietnam yn 1991. Mae'n fyd-enwog am gasglu a meithrin planhigion, ac mae'r planhigion a dyfir yn ei feithrinfa yn cael eu gwerthu ar hyd a lled y byd. Mae wedi ennill llawer o fedalau aur gan *The Royal Horticultural Society*; enillodd Wobr y Llywydd am yr arddangosfa orau yn y Pafiliwn Mawr yn Sioe Flodau Chelsea yn 2011. Fe'i cyflwynwyd gan Dr Dewi W Roberts, aelod o Gyngor y Brifysgol (dde).



Mae'r **Athro Tony Jones CBE, FRCA** yn enedigol o Ynys Môn. Mae'n gyn Ganghellor y *School of Art, Institute of Chicago* ac mae'n ddarlledwr, awdur a gweinyddwr celf byd-enwog. Mae'n enillydd Medal Newbery Prifysgol Glasgow a Gwobr Gweinyddwr yr *US National Council of Art*. Fe'i cyflwynwyd gan yr Athro Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg (dde).

“Dydw i ddim wedi anghofio fy nyddiau ym Mangor ac wedi fy ngwir gyffwrdd gan y ffaith nad ydi Bangor wedi fy anghofio i. Duw fendithio fy *alma mater!*”
John Sessions



Mae'r **Athro Catherine McKenna**, yn Athro leithoedd a Llenyddiaeth Geltaidd ym Mhrifysgol Harvard. Mae'n ysgolhaig adnabyddus ym maes rhyddiaith naratif a barddoniaeth ganoloesol Gymraeg. Mae ganddi gysylltiadau academiaidd agos gyda Bangor, ac mae ei Chymrodoriaeth er Anrhydedd yn cadarnhau'r 'berthynas arbennig' sydd rhwng ei hadran yn Harvard ac Ysgol y Gymraeg ym Mangor. Cafodd ei chyflwyno gan yr Athro Peredur Lynch, Pennaeth Ysgol y Gymraeg (chwith).



Mae cyn Aelod Seneddol Alun a Glannau Dyfrdwy, a chyn-weinidog y llywodraeth y **Gwir Anrhydeddus Arglwydd Barry Jones**, yn un o gyn-fyfyrwyr y Coleg Normal. Yn ystod ei yrfa wleidyddol bu'n Ysgrifennydd Seneddol Preifat i Denis Healey ac yn Weinidog yn y Swyddfa Gymreig. Bu hefyd yn llywydd Ysbyty Glannau Dyfrdwy a llywydd y Gymdeithas Alzheimer, ac yn aelod o gyrff llywodraethu Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Cafodd ei gyflwyno gan Dr Andrew Edwards o'r Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg (chwith).



Dr Gwyneth Lewis oedd Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru rhwng 2005 a 2006. Mae wedi cyhoeddi wyth cyfrol o farddoniaeth yn y Gymraeg a Saesneg. Cyfansoddodd Gwyneth y geiriau sydd ar flaen Canolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd. Mae ei chasgliadau wedi bod ar restrri byr nifer o gystadlaethau ac wedi ennill nifer o wobrwyon. Mae hefyd wedi ysgrifennu geiriau dwy opera i blant ac oratorio i Gorws Opera Genedlaethol Cymru a chantorion amatur. Yn 2011 yr oedd yn Gymrawd Gwadd Cyffredin Mary Amelia Cummins Harvey yng Ngholeg Girton, Caergrawnt. Cafodd ei chyflwyno gan Dr Angharad Price, Ysgol y Gymraeg (dde).

Yn ystod y seremonïau graddio, cyflwynwyd **Cymrodoriaethau Addysgu** i bum aelod o staff academiaidd i gydnabod eu cyfraniad eithriadol at addysg a gofal bugeiliol y myfyrwyr. Caiff yr enwebiadau ar gyfer Cymrodoriaethau Addysgu eu gwneud gan y staff a'r myfyrwyr a'u hystyried gan banel.



Dr Thomas Caspari
Ysgol Gwyddorau Biologol



Dr James Hardy
Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer



Dr David Pryce
Ysgol Gwyddorau Biologol



Yr Athro Robert Rafal
Ysgol Seicoleg



Yr Athro Guillaume Thierry
Ysgol Seicoleg

... o'r dudalen flaen

SAFONAU ACADEMAIDD Y BRIFYSGOL YN DERBYN PLEIDLAIS O YMDDIRIEDAETH

Meddai'r Is-Ganghellor, Yr Athro John G Hughes, "Mae'r canlyniad hwn yn deyrnged i ymroddiad yr holl staff i ansawdd a safonau uchel yn ein holl weithgarwch – ansawdd, yn wir, ydi ein harwyddair, boed hynny mewn addysgu a dysgu, gofal bugeiliol, cefnogaeth academaidd, goruchwyliaeth ymchwil, neu

wrth gefnogi'r profiad ehangach i fyfyrwyr. Rydw i'n llongyfarch yn gynnes pob cydweithiwr ar gyflawni'r dyfarniad hwn."

Dywedodd y Cofrestrydd, Dr David Roberts, a gadeiriodd Grŵp Tasg yr Arolwg Sefydliadol a fu'n paratoi ar gyfer yr arolwg: "Roedd hwn yn

ddiamheuol yr arolwg allanol mwyaf trylwyr o weithgarwch academaidd yr ydym wedi ei gael – ac mae'n ganlyniad hynod foddhaus i bawb sy'n ymwneud â'r Brifysgol." ■

Y TÎM CAFFAEL GORAU

Mae Prifysgol Bangor wedi ennill Gwobr Arweinyddiaeth a Rheoli'r Times Higher 2012. Bellach yn eu pedwaredd flwyddyn, mae'r gwobrau hyn yn uchafbwynt y calendr academaidd ac yn dathlu goreuon y sector.

Enillodd y Brifysgol y wobr Tîm Caffael Eithriadol. Cafodd buddugoliaeth y tîm ei weld gan fwy na 800 o bobl a ddaeth ynghyd yng Ngwesty'r Grosvenor House, Park Lane yn Llundain i ddathlu cyflawniadau'r sector yn y seremoni, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â'r Sefydliad Arweinyddiaeth ar gyfer Addysg Uwch.

Mae'r Uned Caffael yn cael ei harwain gan Jennifer Wolstenholme ac mae'n cynnwys Mike Montgomery a Chris Benson, sy'n gweithio yn ganolog gyda chysylltiadau â phrynwyr datganoledig ar draws y sefydliad.

Ar ôl ennill y wobr dywedodd Jennifer Wolstenholme:

"Mae'r categori ar gyfer y Tîm Caffael Eithriadol yn cydnabod safon uchel y gwaith caffael a wnaed ar draws y sector Addysg Uwch.

"Mae'n anrhydedd fawr i Brifysgol Bangor ennill gwobr mor bwysig, ac mae tîm caffael y Brifysgol yn falch iawn fod eu gwaith caled



O'r chwith: Julian Clary, Jennifer Wolstenholme a Phil Baty, Golygydd Times Higher Education Rankings.

a'u proffesiynoldeb wedi cael ei gydnabod."

Roedd y wobr yn cydnabod cynnydd mawr yn y gwaith o ymgorffori arferion caffael gorau ar draws y Brifysgol, gwaith sydd wedi arwain at fwy na threblu'r arbedion a adroddwyd mewn cyfnod o dair

blynedd.

Dywedodd John Gill, golygydd y Times Higher Education: "Dylai'r sector gymryd sicrwydd o'r enghreifftiau eithriadol o ymrwymiad, creadigrwydd a gwaith caled y mae'r beirniaid wedi eu cydnabod wrth ddyfarnu'r gwobrau." ■

BRAF CWRDD Â ...

ELEN AP ROBERT, CYFARWYDDWR ARTISTIG PONTIO



Ymunodd Elen â ni fel Cyfarwyddwr Artistig cyntaf Pontio ym mis Ebrill. Ers 2005 bu'n Gyfarwyddwr Artistig Galeri yng Nghaernarfon, lle mae wedi datblygu rhaglen lwyddiannus iawn o ddiwyddiadau artistig a gweithgareddau cymunedol. Graddiodd Elen mewn cerddoriaeth o Brifysgol Sheffield ac yna aeth ymlaen i Goleg Cerddoriaeth a Drama'r Guildhall, Llundain i astudio cwrs ôl-radd mewn canu cyn treulio chwe blynedd fel cantores opera broffesiynol. Mae wedi gweithio hefyd fel therapydd cerdd yn arbenigo mewn rhoi cefnogaeth i blant gydag anableddau dysgu ac anawsterau cyfathrebu yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Yma, mae Elen yn dweud mwy wrthym amdan ei hun:

Sut ydych chi'n ymlacio?

Dwi'n un wael am ymlacio'n llwyr a dweud y gwir ond mae Begw, ci defaid Cymraeg coch a gwyn sydd yn byw gyda mi a'm gwr a'm tri o blant yn un da am fy nhynnu allan i gerdded ar hyd Lôn Las Y Felinheli ac ar ddiwrnodau perffaith o haf, traethau Dinas Dinlle a Llanddwyn - ymlacio'n braf hyd nes i gi deithr ddod i gyfarfod â ni.

Beth yw eich hoff ddarn o gerddoriaeth?

Llais nefolaidd Renée Fleming yn canu Porgi Amor allan o Briodas Ffigaro Mozart a hefyd Kiri Te Kanewa yn canu Cantilena allan o Bachianas Brasilieras i lais ac 8 'cello gan H Villa Lobos – dydan ni ddim yn cael cyfle i glywed y darn hyfryd yma'n cael ei berfformio'n fyw hanner digon aml. Ar deithiau hir bydd cryno ddisgiau Nina Simone, Bruce Springsteen a Lleuwen Steffan yn sicr o wneud ymddangosiad.

Beth yw eich holl fwyd/ bwyty lleol?

Dwi wrth fy modd gyda bwyd y môr, ac mae'r *Lobster Pot*, Porth Swtan ym mhen draw Ynys Môn yn ffefryn. Yn agosach at adra mae'r Fic Felinheli yn le da am ginio dydd Sul, gyda'i awyrgylch Gymreig hamddenol braf, ac mae eu *pizzas* cartref ymhlith y gorau dwi di flasu!!

Hoff Ffilm

Ffilmiau Alfred Hitchcock, *Amelie*, *Little Miss Sunshine*; mae fy chwaeth yn reit eang.

Hoff awdur/lyfr

Dwi newydd orffen ail nofel Mari Strachan "*Blow on a Dead Man's Embers*". I mi, mae'n rhaid wrth stori dda ac mae'r elfen stori yn amlwg iawn yn ei nofelau hi. Dwi'n hoff iawn o farddoniaeth gyfoes a dwi'n meddwl ambell waith (a byddai'n tynnu nyth cacwn am fy mhen am ddweud hyn) bod beirdd yn cael cystal, os nad gwell hwyl ar grisialu gwirioneddau, yn eu plith, Gwyn Thomas a'r diweddar Iwan Llwyd.

Beth yw'r sioe theatr orau i chi weld yn ddiweddar?

Bues i'n ddigon ffodus i gael mynychu Gŵyl Theatr Ryngwladol *Imaginate* yng Nghaeredin a chael fy ysbrydoli gan ansawdd uchel y sioeau theatr i bobl ifanc sydd yn cael eu cynhyrchu ar y cyfandir, yn eu plith H.G gan gwmni TricksterP o'r Swistir - dehongliad theatrig hynod o ddyfeisgar o stori Hansel a Gretel, y byddaf yn ceisio fy ngorau glas i'w gael i Ganolfan newydd Pontio.

Tu allan i'r gwaith beth yw eich diddordebau?

Sgïo, er dwi fel petawn yn colli rhywfaint o hyder wrth i mi fynd yn hŷn a'r bechgyn yn fy nheulu yn fy ngadael ar ôl! Mae gofyn i chi fod yn ffan o dîm pêl droed Lerpwl yn ein tŷ ni ond fel un sydd wedi ei magu yn ne Cymru, mae rygbi dipyn agosach at fy nghalon. Fe fyddai rhai sy'n fy nabod yn dda yn dweud mai un o'm gwendidau pennaf yw siopa am sgidia. Beryg bod yna elfen o wirionedd yn fa'na ■



Y BRIFYSGOL GYNALIADWY

Gall cynaliadwyedd olygu gwahanol bethau i wahanol bobl, ond yn ei hanfod, mae'n ymwneud â sicrhau cydbwysedd o dri chynhwysiad: effeithiau cymdeithasol; effeithiau amgylcheddol; ac effeithiau ariannol - caiff ei ddisgrifio'n aml fel "planed, pobl a phoced". Mae ein tudalennau cynaliadwyedd newydd ar y we (bangor.ac.uk/sustainability) yn darparu fforwm i staff a myfyrwyr gyfrannu eu barn a'u syniadau er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd yn y Brifysgol. Nid oes unrhyw adran neu ysgol yn 'berchen' arnynt, ac maent yno er mwyn i staff a myfyrwyr eu defnyddio a'u datblygu.

Cynhwysion ar goll

Mae Uwch Reolwyr ac aelodau penodol o staff yn gweithio tuag at fod yn gymuned wirioneddol gynaliadwy trwy ddatblygu polisïau a gweithdrefnau cywir, ond ni fydd hyn ynddo'i hun yn creu cymuned gynaliadwy. Y cynhwysion ar goll ydi **chi** - ac rydym yn gofyn i chi 'brynu i mewn i'r syniad' er mwyn llwyddo. Mae sawl ffordd o gymryd rhan. Er enghraifft, gellwch ymuno â'r fenter "Deg y Cant". Dyma esboniad gan Dr Einir Young, Pennaeth Datblygu Cynaliadwy: "Rydym am recriwtio 10% o'n myfyrwyr a staff i ymrwymo i hyrwyddo cynaliadwyedd ym Mhrifysgol Bangor. Gyda chymaint â hyn o bobl yn cymryd rhan, rydym yn teimlo y gallwn wneud newid sylweddol yn y sefydliad. Bydd 10% sy'n cofrestru hefyd yn cael eu cynnwys mewn cystadlaethau, ac mae'n bosib gosod lefel ymrwymiad a'r gweithgareddau y maent am gyfrannu." Gall staff a myfyrwyr hefyd lofnodi "Addewid Amgylcheddol" y Brifysgol, sy'n tynnu sylw at gamau syml y gellir eu cymryd i wneud gwahaniaeth mawr. Beth am ddod yn Hyrwyddwr Amgylcheddol ar gyfer eich maes

chi? Mae'r rôl yn hollol wirfoddol ac nid oes angen cymwysterau; dim ond awydd gwirioneddol bersonol i warchod yr amgylchedd.

Gwobrau Ariannol

Meddyliwch beth yw ystyr cynaliadwyedd i chi, ac yna daliwch yr ystyr yn y gystadleuaeth ffotograffiaeth 'Yn Eich Delwedd: Eich Barn am Gynaliadwyedd'. Gallech chi fod â chyfle i ennill gwobr yn amrywio o £25 i £100. Ewch i bangor.ac.uk/sustainability am fanylion.

Y Ddraig Werdd Lefel 5

Mae'r "Ddraig Werdd" yn Safon Amgylcheddol fawreddog a ddyfarnwyd i sefydliadau yng Nghymru sydd wedi dangos gwelliant amgylcheddol parhaus. Mae'n rhaglen gam wrth gam ac mae'r Brifysgol wedi cyrraedd y lefel uchaf (Lefel 5) yn dilyn archwiliad allanol o'i System Rheolaeth Amgylcheddol. Esboniodd Ricky Carter, Rheolwr yr Amgylchedd: "Mae'r achrediad yn dangos bod gan y Brifysgol, yr holl weithdrefnau angenrheidiol yn eu lle i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd lleol. Mae ein perfformiad yn gwella o flwyddyn i

O'r chwith: Caroline Lucas AS, Arweinydd y Blaid Werdd, Ricky Carter a Dr Einir Young.

flwyddyn - yr ydym yn gwneud cynnydd i leihau ein hól troed carbon, ynni a dŵr, lleihau gwastraff a gwella ailgylchu, a datblygu dulliau cynaliadwy o deithio. Yn ogystal â dod yn bwysicach i ddarparu fyfyrwyr a myfyrwyr presennol, mae cyflawni Safon y Ddraig Werdd hefyd o fudd i'r Brifysgol wrth wneud cais am grantiau ymchwil, gan ei bod yn dod fwyfwy yn un o'r rhagofynion yn y broses dendro".

Anrhydedd Dosbarth Cyntaf

Mae *People and Planet*, y rhwydwaith myfyrwyr mwyaf ym Mhrydain sy'n ymgyrchu i roi terfyn ar dlodi, amddiffyn hawliau dynol a gwarchod yr amgylchedd, hefyd wedi datgan mai Prifysgol Bangor yw'r brifysgol fwyaf 'gwyrd' yng Nghymru. Yng Nghynghrair Gwyrd Prifysgolion 2012, daeth Bangor ar frig Cynghrair Prifysgolion Cymru, a symudodd o 28 i 19 yn y tabl ar draws Brydain. Dywedodd yr Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes: "Rwyf wrth fy modd gyda'r cynnydd yr ydym yn ei wneud. Rydym yn cydnabod bod cynaliadwyedd yn cynnwys pobl a'r blaned yn ogystal â sicrhau ein bod yn gweithredu ar sail ariannol gadarn. Mae Prifysgol Bangor wedi llofnodi "Siarter Datblygu Cynaliadwy" Llywodraeth Cymru yn gyhoeddus i ddangos ein hymrwymiad i ddod yn Brifysgol fwy cynaliadwy. **Ricky Carter** ■

PROJECT CANMLWYDDIANT Y RHYFEL BYD CYNTAF AR Y GWEILL

Mae project enfawr i ddigido deunydd sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf ar y gweill. Mae Adran Llyfrgelloedd ac Archifau'r Brifysgol, fel aelod o'r Archifau a Chasgliadau Arbennig yng ngrŵp WHELP (Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru), yn ogystal ag archifau prifysgol eraill ledled Cymru, wedi derbyn grant o £500,000.

Mae'r project yn cael ei arwain a'i roi at ei gilydd gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru, sydd hefyd wedi cytuno i warantu swm pellach o £240,000. Bwriedir cwblhau'r project erbyn canol 2013, ac mae'n rhan o nifer o broiectau arfaethedig a fydd yn weithredol erbyn mis Awst 2014, canmlwyddiant dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.



Dywedodd Einion Thomas, Archifydd:

"Drwy fynd drwy'r Archifau yma yn y Brifysgol â chrib mân, daethom ar draws bron i 5,000 o eitemau unigol sy'n ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r eitemau yn amrywio o restrau o fyfyrwyr a ymunodd â'r lluoedd, yr achos o ffoaduriaid o Wlad Belg, y datblygiad cynnar o Fyddin Tir y Merched, y rhai a oedd yn gwrthwynebu rhyfel ar sail

Darlun gan yr artist, Kelt Edwards a anfonwyd at Silyn Roberts, sosialwr Cymraeg nodedig, dyddiedig 1916.

cydwybod ac a garcharwyd am eu credoau, i lythrau trist ac ingol gan y rhai ar y Ffrynt. O ddi-ddordeb mawr mae gennym dri chopi drafft o gerdd fuddugol Hedd Wyn, Yr Arwr, a enillodd y Gadair yn Eisteddfod Genedlaethol Penbedw yn 1917, er iddo gael ei ladd ar Orffennaf 31, diwrnod cyntaf y frwydr yn Passchendaele." ■

PWYLLGOR CENEDLAETHOL BIOAMRYWIAETH Y DU

Mae'r Athro Gary Carvalho o'r Ysgol Gwyddorau Biologol, wedi cael ei benodi yn aelod o'r pwyllgor newydd, Pwyllgor Cenedlaethol Bioamrywiaeth y DU, a fydd yn cynghori pobl ynglŷn â materion yn ymwneud â bioamrywiaeth ac yn cynrychioli'r DU ar Blattform y Polisi-Gwyddonol Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth ac Ecosystemau (IPBES) a mentrau bioamrywiaeth rhyngwladol eraill. Mae ef yn un o 15 o aelodau a ddewiswyd yn dilyn galwad am enwebiadau gan amryw o gymdeithasau a chyrrff ysgolheigaidd y DU, ac mae cynrychiolaeth yn dod o brifysgolion, sefydliadau anllywodraethol, y llywodraeth a sefydliadau eraill. Bydd yr Athro Carvalho yn dod ag arbenigedd ar gadwraeth enetig, ac yn benodol, defnydd o offer yn seiliedig ar DNA ar gyfer adnabod, monitro a gwarchod bioamrywiaeth poblogaethau, rhywogaethau a chymunedau mewn dŵr croyw a'r môr ■

DYFARNU MEDALAU I FYFYRWYR

Yn rhan o gamau newydd gan Gwmni Drapers, sy'n cefnogi nifer o fyfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor, mae'r cwmni wedi dechrau dyfarnu medalau i fyfyrwyr sy'n rhagori yn eu maes. O'r dwsin o fedalau a ddyfarnwyd eleni, dyfarnwyd un fedal arian ac un fedal efydd i Brifysgol Bangor yn ystod ymweliad diweddar Drapers â'r Brifysgol. Cyflwynwyd y medalau gan Feistr cwmni Drapers, Anthony Walker; y fedal arian i fyfyrwraig PhD o Ysgol yr Amgylchedd, Adnoddau Naturiol a Daearyddiaeth, Sophie Williams; a'r fedal efydd i Elina Hamilton, myfyrwraig PhD yn yr Ysgol Cerddoriaeth. Cydnabuwyd y ddwy yn fyfyrwyr sydd, trwy esiampl, wedi hybu enw da Prifysgol Bangor a'i myfyrwyr ■

PIGION TRYDAR



Dyma rai o'r pethau mae rhai o'n dilynwyd wedi'u dweud ar Twitter

@S4C_URDD RT @prifysgolbangor: Llongyfarchiadau mawr i Llyr Titus o Ysgol Y Gymraeg am ennill y Fedal Ddrama yn #eisteddfod @Yr_Urdd

@yr_urdd RT Tecstio yn y Gymraeg - Cynog Prys a Rhian Hodges o Ysgol Gwyddorau Cymdeithas yn trafod negeseuon testun pobl Cymru yn #eisteddfod @Yr_Urdd

@canolfanbedwyr Llongyfarchiadau mawr @prifysgolbangor ar gipio gwobr Ysbrydoli Cymru yr IWA yng nghategori 'Cymraeg yn y Gweithle'.

@Caaatrin Llongyfarchiadau Iwan Wyn Williams am raddio a dosbarth cyntaf #bangor2012 #firstclass

@ONaRhian Cefais ddiwrnod graddio hyfryd! :) Diolch @BangorUni! #Bangor2012 #Graduation #Graddio #leithyddiaeth



SLIM-A-THON YR HAF

Ar ôl rhai misoedd oer o gael eu cysuro gan doesenni a bisgedi, mae tri aelod staff o'r Ysgol Astudiaethau Creadigol a'r Cyfryngau wedi penderfynu tynnu'r llwch oddi ar eu siorts a'u hesgidiau ymarfer corff i gollu 2 stôn yr un. Mae hynny'n gyfanswm o 84 pwys enfawr i gyd.

Yn ystod gwyliau'r haf, bydd Iwan Davies, Lester Hughes a Jamie Sherry yn gweithio'n galed i gollu'r pwysau hyn er mwyn codi arian ar gyfer Hosbis Dewi Sant. Mae hwn yn elusen leol sy'n darparu gofal diwedd bywyd am ddim i gleifion sy'n oedolion ar draws gogledd orllewin Cymru a thrwy gefnogi'r

rhai agosaf atynt.

Eglurodd Jamie: "Mae pawb yn yr Ysgol wedi cael eu heffeithio gan salwch terfynol, boed fel teulu neu ffrindiau. Rydym wedi dewis Hosbis Dewi Sant oherwydd eu gofal anhygoel i'r rhai sydd ag afiechydon sy'n peryglu eu bywydau yng ngogledd Cymru, a hefyd yr amser y maent yn eu cymryd i ddangos empathi a chefnogaeth ar gyfer eu hanwyliaid. Mae 75% o'r arian a werir gan Dewi Sant yn cael ei godi trwy waith elusen - ac yr ydym yn falch i gefnogi'r gwaith pwysig hwn."

O'r chwith - Jamie Sherry, Iwan Davies a Lester Hughes ym mis Mai.

Cafodd y tri eu pwysu dydd Iau 10 Mai, a dilyswyd y canlyniadau yn annibynnol gan Kate Lawrence a Huw Powell, hefyd o'r Ysgol. Bydd y rownd derfynol o bwysu yn ystod yr Wythnos Groeso ar ddydd Llun, 24 Medi.

Os gwelwch yn dda wnewch chi helpu i ysgogi'r triawd i gadw'n heini a chefnogi'r elusen ardderchog hon drwy roi cymaint ag y gallwch ei fforddio drwy wefan Just Giving www.justgiving.com/SCSMSummerSlim neu cysylltwch ag Iwan ar 8560 ■

OBE I SIAN

Llongyfarchiadau i'r Athro Sian Hope sydd wedi derbyn OBE yn Rhestr Anrhydeddau Penblwydd y Frenhines. Mae hi wedi gweithio yn y Brifysgol mewn gwahanol swyddogaethau am y 26 mlynedd ddiwethaf. Ei swyddogaethau presennol yw Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesi ac Athro Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Athro Hope hefyd yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Gwyddorau. Mae'r Athro Hope yn un o'r ychydig Athrawon benywaidd mewn Cyfrifiadureg ym Mhrydain. Wrth glywed ei bod wedi ennill yr OBE, dywedodd: "Rwy'n hynod falch, mae'n fraint i mi a bron na fedrwn i ddweud dim. Mae'n debyg mai dyma'r unig dro yn fy mywyd nad oeddwn yn gwybod beth i'w ddweud!" ■



GWOBRAU DYSGU DAN ARWEINIAD MYFYRWYR

Daeth dros ddau gant o fyfyrwyr, cynrychiolwyr cyrsiau a staff y Brifysgol at ei gilydd yn ddiweddar i ddathlu Gwobrau Dysgu Dan Arweiniad Myfyrwyr, y cyntaf i'w gynnal ym Mangor. Gwnaed cais llwyddiannus gan Undeb Myfyrwyr Bangor am gyllid i gymryd rhan mewn cynllun peilot a gefnogir gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) a'r Academi Addysg Uwch (AAU).

"Pan welsom y project yn cael ei hysbysebu, roeddem yn meddwl ei fod yn syniad gwych," meddai Danielle Buckley, Is-lywydd Addysg a Lles yn Undeb Myfyrwyr Bangor.

"Un o nodweddion cryf ein cais oedd ein bod eisiau rhedeg y fenter hon mewn partneriaeth â'r Brifysgol ac roeddem wrth ein boddau gyda'r ymateb cadarnhaol a dderbyniwyd, yn gyntaf gan yr Athro Colin Baker a'r Athro Carol Tully, ac yna gan yr Ysgolion Academaidd a'r myfyrwyr."

Roedd cais Bangor yn un o 21 o geisiadau project llwyddiannus ledled y wlad, ac ariannwyd y gwobrau yn rhannol drwy'r bartneriaeth UCM/AAU ac arian cyfatebol gan Brifysgol Bangor.

"Roeddem eisiau i'r gwobrau fod yn llwyr dan arweiniad y myfyrwyr," eglurodd Danielle "felly sefydlwyd grŵp llywio ar gyfer y project a gwahoddwyd cynrychiolwyr cyrsiau i fod yn aelodau ohono. Penderfynodd y grŵp ar y gwobrau, y meini prawf ac yn y pen draw - yr enillwyr. Roedd yn anodd iawn dewis enillwyr oherwydd roedd safon yr enwebiadau mor uchel. Roedd y myfyrwyr yn teimlo'n angerddol iawn ynglŷn â'r addysg a'r gefnogaeth ragorol".

Cyflwynwyd dros 300 o wahanol enwebiadau gan fyfyrwyr ar ran 180 aelod staff gwahanol a oedd



Dr Fay Short yn derbyn gwobr Athrawes y Flwyddyn.

yn cynrychioli pob un o Ysgolion Academaidd y Brifysgol. Cynhaliwyd y broses enwebu ar-lein drwy wefan Undeb y Myfyrwyr, yn bangorstudents.com, ac roedd rhestr lawn o gategoriâu'r gwobrau, y meini prawf a'r enillwyr ar gael ar y wefan.

Gwahoddwyd pob aelod staff oedd ar y rhestr fer i'r cinio gwobrwyo a chyflwynwyd tystysgrif a mwg iddynt i gydnabod eu cyflawniad. Hefyd, derbyniodd yr enillydd ym mhob categori dlws gwydr, a gyflwynwyd gan yr Athro Colin Baker, y Dirprwy Is-Ganghellor dros Addysgu a Dysgu.

"Roedd y gymeradwyaeth uchel, y gwerthfawrogiad cynnes a'r mwynhad yn gwneud y digwyddiad hwn ar gyfer myfyrwyr a staff yn Neuadd PJ yn ddigwyddiad cofiadwy i bawb," meddai'r Athro Colin Baker.

Mae'r holl arwyddion yn awgrymu y bydd y gefnogaeth gan yr UCM/ Academi Addysg Uwch yn parhau ac mae Undeb y Myfyrwyr eisoes wedi dechrau cynllunio ar gyfer cynnal y gwobrau eto'r flwyddyn nesaf. Disgwylir i'r project hwn dyfu a thyfu.

"Mae Undeb y Myfyrwyr wedi sicrhau llwyddiant y digwyddiad arloesol hwn. Cafodd ei groesawu mor dda gan fyfyrwyr a staff fel y bydd rhaid ei wneud yn ddigwyddiad blynyddol am ddegawdau i ddod," meddai'r Athro Carol Tully ■

GWOBRAU DYSGU DAN ARWEINIAD MYFYRWYR 2012: YR ENILLWYR

Gwobr Cefnogaeth Fugeiliol Eithriadol:
Y Parchedig Kenneth Padley

**Gwobr Hyrwyddo Addysg Cyfrwng
Cymraeg:**

Mr Elwyn Hughes - Pennaeth Uned
Cymraeg i Oedolion,
Ysgol Dysgu Gydol Oes

Gwobr Rhyngwladol:

Ms Manuela Vittori
Swyddog Lles,
Lles Myfyrwyr Rhyngwladol

Gwobr Gwyrdd:

Mr Ricky Carter - Swyddog Amgylcheddol,
Adran Ystadau

Goruchwyliwr Traethawd Hir y Flwyddyn:

Yr Athro Helen Wilcox - Athro Saesneg,
Ysgol y Saesneg

Gwobr Arloesedd:

Dr Jesse Martin - Uwch Ddarlithydd,
Ysgol Seicoleg

Aelod Staff Cefnogi'r Flwyddyn:

Paul Kennedy - Swyddog Ymchwil,
Ysgol Gwyddorau Eigion

Gwobr Adrannau Gwasanaeth:

Canolfan Dyslecsia Miles

Athrawes Ôl-radd y Flwyddyn:

Ms Sian Beidas,
Ysgol Ieithoedd Modern

Athro Ôl-radd y Flwyddyn:

Yr Athro Jerry Hunter - Athro'r Gymraeg,
Ysgol y Gymraeg

Athro Newydd y Flwyddyn:

Dr Andy Webb - Darlithydd,
Ysgol Saesneg

Athrawes y Flwyddyn:

Dr Fay Short - Darlithydd, Ysgol Seicoleg

Amddiffynnydd Cydraddoldeb a Rhyddid:

Dr James Intriligator -
Uwch-ddarlithydd, Ysgol Seicoleg

Gwobr am Gyfraniad Eithriadol:

Ms Steph Barbaresi - Cofrestrwydd
Cynorthwyol, Y Gofrestrfa Academaidd

Gwobr am Gyfraniad Eithriadol:

Ms Hazel Frost, - Cynorthwy-ydd
Clerigol, Ysgol Seicoleg

Am fwy o luniau o'r cyflwyniadau chwiliwch am
"Skint Student Productions" ar Facebook.

in homes of children
randomised controlled trial
Journal of General Practice
32
rd:
Dr. Richard Neal
Dr D Neal, Dr Nigel
nk, Ms Linda Mull
s. Dr Daphne Rizz
RISMA study gr



GWOBR I BAPUR ACADEMAIDD

Llongyfarchiadau i Dr Richard Neal, Canolfan Ymchwil Gogledd Cymru i Ofal Sylfaenol a Louise Woodfine, Prif Swyddog Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a enillodd y wobwr am y papur gorau yn yr adran Meddygaeth a Phlant yn seremoni

wobrwyo flynyddol Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol yn Llundain yn ddiweddar. Mae'r papur a enillodd y wobwr, *'Enhancing ventilation in homes of children with asthma: pragmatic randomised controlled trial'*, yn edrych ar y manteision o osod gwell

O'r chwith: Louise Woodfine, Iona Heath yn cyflwyno'r wobwr a Richard Neal.

systemau awyru yng nghartrefi plant gydag asthma. Mae Canolfan Ymchwil Gogledd Cymru i Ofal Sylfaenol yn grŵp ymchwil/addysgu sy'n rhan o'r Coleg Gwyddorau Iechyd ac Ymddygiad wedi ei leoli yn Wrecsam ■

FFOCWS AR GYFLOGAETH I RADEDIGION

Cyflogadwyedd graddedigion oedd prif ffocws cynhadledd a fynychwyd gan staff Prifysgol Bangor yn Cadiz, Sbaen yn ddiweddar.

Cynhaliwyd trafodaethau gan gynrychiolwyr o Wasanaeth Gyrfaedd ac Ysgol y Gyfraith tair prifysgol sy'n rhan o broiect *Euroempleo*.

Amcan y project, dan arweiniad Universidad Cadiz, yw cyfuno ymdrechion Prifysgolion Andalusia a Gwasanaeth Cyflogaeth Andalusia. Hefyd, mewn cydweithrediad â Phrifysgolion Pisa a Bangor, bwriedir rhannu syniadau, profiadau ac arferion da mewn perthynas â chyflogadwyedd myfyrwyr a graddedigion. Roedd y pynciau trafod yn amrywio o ddiweithdra ymhlith graddedigion, cyfleoedd profiad gwaith, i ffyrdd o ennyn diddordeb myfyrwyr mewn gweithgareddau allgyrsiol, hunangyflogaeth a'r farn ar gynlluniau dadleuol i ddiwygio cyfraith Llafur Ewropeaidd newydd.

Ar hyn o bryd, mae de Andalucía yn un o'r rhanbarthau sy'n dioddef waethaf yn Sbaen o ran diweithdra uchel iawn ymhlith pobl ifanc.

Cynrychiolwyd Prifysgol Bangor gan Dewi Wyn Jones - Ymgynghorydd Gyrfaedd, Lis Owen - cydgysylltydd Blasu Gwaith Go Wales ac Aled Griffiths - Dirprwy Bennaeth Ysgol y Gyfraith ym Mangor.

Meddai Dewi Wyn Jones: "Er gwaethaf y rhagolygon economaidd gwael, yr oedd yn ddiddorol dysgu am fentrau a materion a fabwysiadwyd i wynebu'r heriau hyn yn Pisa a Cadiz, a sylweddoli bod eu sefyllfa anodd yn debyg iawn i'n sefyllfa ni yma yng ngogledd orllewin Cymru.

"Roedd ganddynt ddiddordeb hefyd yn y mentrau sydd gennym ym Mangor er enghraifft, Menter trwy Ddylunio - her busnes arloesol gyda phwyslais ar ddylunio, lle mae myfyrwyr yn gweithio mewn

timau amlddisgyblaethol i ddatblygu cynnyrch yn ôl briff gan fusnesau go iawn. Gobeithir y bydd rhagor o fentrau newydd, megis y broses o gyflwyno Gwobr Cyflogadwyedd Bangor, yn adeiladu ar y sylfeini hyn ac yn rhoi hwb i gyflogadwyedd ein graddedigion."

Dyweddod Lis Owen: "Mae'r profiad hwn yn dysgu i ni pa mor bwysig yw mentrau fel GO Wales yn darparu cyfleoedd ar gyfer lleoliadau blasu gwaith i'n myfyrwyr a graddedigion. Mae hefyd yn gwneud i ni sylweddoli ein bod yn ffodus y sefydlwyd GO Wales cyn yr argyfwng economaidd presennol, a bod hyn wedi ein galluogi i ddatblygu'r rhaglen yn unol ag anghenion graddedigion a busnesau Cymru."

Daeth y gwahoddiad yn dilyn ymweliad llwyddiannus gan ddirprwyaeth o Brifysgol Cadiz i Ysgol y Gyfraith ym Mangor ym mis Tachwedd y llynedd. Gobeithir y bydd dau aelod staff o Cadiz yn dychwelyd i Fangor ym mis Gorffennaf fel rhan o'r rhaglen Erasmus i gysgodu staff yr adran Gyrfaedd yn ogystal â gwella eu sgiliau Saesneg ■



Marian a Bryn Tomos

GWIRFODDOLWYR YN DERBYN ANRHYDEDD GAN YR URDD

Derbyniodd Bryn Tomos, darlithydd yn yr Ysgol Addysg, ynghyd â'i wraig, Marian Tomos, Dlws John a Ceridwen Hughes 2012 yn Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar. Mae'r Wobr yn cael ei rhoi'n flynyddol i nodi "cyfraniad sylweddol i fywyd ieuencid Cymru".

Cafodd Bryn a Marian Tomos eu henwebu gan aelodau'r Urdd a rhieni'r ardal am eu bod yn cynnal Uwchadran ac Aelwyd Bangor bob wythnos er 2004.

Meddai Mr Wyn Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor: "Mae'n enghraifft wych o ymwneud cymunedol gan aelod o staff sydd wedi rhoi oriau lawer o'i amser yn wirfoddol i gynnig cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol i bobl ifanc yr ardal. Mae Bryn, a'i wraig Marian, i'w llongyfarch yn fawr ar y wobwr haeddiannol hon."

Un o'r rhai a enwebodd y ddau oedd Yr Athro Gerwyn Williams, o Ysgol y Gymraeg, sydd hefyd yn byw'n lleol.

Meddai'r Athro Gerwyn Williams: "Fu'r wireb 'os am rywun i wneud rhywbeth, yna gofynnwch i rywun prysur' erioed yn fwy priodol nag yn achos y cwpl cymwynasgar yma."

Meddai Bryn Tomos: "Roedd cael gwybod ein bod i dderbyn y Tlws yn hollol, hollol annisgwyl ac yn sioc lwyd i Marian a minnau yn ogystal â bod yn anrhydedd anferthol.

"Rydym o ddirifrif yn teimlo'n gwbl annigonol, a bod pobol eraill lawer mwy haeddiannol- ac eto rydym yn hynod ddiolchgar - ymysg eraill, i'r plant sy'n dod i'r Aelwyd - dylwn ganu clod y plant am eu hymroddiad.

"Mae'n bleser mynd yno bob nos iau. Tydi rhywun ddim yn cyfrannu er mwyn derbyn - rhoi nôl ydy'n bwriad ni gan ein bod wedi bod yn aelodau Aelwydydd yr Urdd pan oeddem yn blant, ac eisio rhoi nôl, ac wrth gwrs gyfrannu rhywbeth i blant Bangor."

Yn ôl Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru, mae cyfraniad y ddau'n amhrisiadwy.

"Rydym yn hynod o ddiolchgar am eu gwaith diflino yn ardal Bangor. Mae nhw'n cynnig cyfleoedd heb eu hail yn wythnosol i'r bobl ifanc ac mae'r nifer sydd yn mynychu yn brawf o'r mwynhad mae'r plant yn ei gael." ■

GWOBWR RHYDYCHEN I ATHRO O FANGOR

Dyfarnwyd ysgoloriaeth ymweld bwysig i Tony Bushell, Athro Almaeneg yn Ysgol Ieithoedd Modern Bangor gan Goleg Sant Ioan, Rhydychen, i gwblhau astudiaeth o rethreg hunaniaeth Awstria. Dywedodd yr Athro Bushell y bydd ei astudiaeth yn ceisio dangos i ba raddau y mae'r Awstria weriniaethol ar ôl 1945 wedi ei chael yn anodd sefydlu synnwyr o wahanolrwydd, a hithau'n aml yn gorfod mynd yn ôl at ei hetifeddiaeth imperialaidd ■

ATHRO GWYCH

Mae'r ymgynghorydd mewn obstetreg a gynecoleg, Philip Banfield, wedi'i enwi yn Athro Clinigol y Flwyddyn gan Gangen Cymru o Gymdeithas Feddygol Prydain a Grŵp Dysgu'r *British Medical Journal*. Datgelodd ei fod wrth ei fodd ei fod wedi ennill y wobwr hon, sy'n cydnabod gwaith ardderchog athrawon sy'n cefnogi myfyrwyr meddygol yng Nghymru. Mae Philip yn uwch ddarlithydd anrhydeddus yng Nghanolfan Ymchwil Gofal Sylfaenol Gogledd Cymru (NWPCPR), grŵp ymchwil o fewn y Coleg Iechyd a Gwyddorau Ymddygiad ■

BANGOR Y CYNTAF I DDERBYN GWOBWR SEQOHS

Llongyfarchiadau i Joe Patton, Ymarferydd Iechyd Galwedigaethol am ddod ag anrhydedd i Brifysgol Bangor – y brifysgol gyntaf yn y DU i dderbyn achrediad safonol o'i gwasanaeth iechyd galwedigaethol. Cadarnhaodd panel achredu sicrhau ansawdd Cyfadran Feddygaeth Alwedigaethol fod Prifysgol Bangor yn darparu gwasanaeth iechyd galwedigaethol diogel, effeithiol a safonol i'w aelodau staff. Mae Cynllun Achredu'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol Diogel Effeithiol Safonol (SEQOHS) yn gynllun annibynnol sy'n cael ei reoli gan Goleg Brenhinol Meddygon Llundain – sydd wedi'i ddewis i arwain ac i reoli'r broses ar ran y Gyfadran Meddygaeth Alwedigaethol ■

PRIFYSGOL BANGOR AR Y BLAEN WRTH DDEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GWAITH

Cafodd gwaith Prifysgol Bangor yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ei gydnabod mewn seremoni fawreddog yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd yn ddiweddar pan ddaeth yn gyntaf yng ngwobrau Ysbrydoli Cymru. Mae'r gwobrau yn cael eu cynnig yn flynyddol gan Y Sefydliad Materion Cymreig ar y cyd â'r *Western Mail*, ac eleni, Prifysgol Bangor oedd yn fuddugol yn y categori 'Gweithleoedd Dwyieithog'. Dyma i chi rai o'r rhesymau pan yr oedd beirniaid y gystadleuaeth yn teimlo fod Prifysgol Bangor yn arwain yn y maes ...

Cymorth Cymraeg

Dyma wefan unigryw sy'n dod â llawer o adnoddau at ei gilydd mewn un lle cyfleus er mwyn helpu staff i ddefnyddio'r Gymraeg. Ers ei lansio flwyddyn yn ôl, mae dros 6,000 o unigolion wedi defnyddio'r safle a thudalennau'r wefan wedi cael eu cyrchu dros 60,000 o weithiau. Er bod y wefan yn cael ei defnyddio'n eang gan staff y Brifysgol ei hun, mae ystadegau ac adborth cyson yn dangos ei bod hi hefyd yn boblogaidd iawn ymhlith staff cyrff cyhoeddus eraill Cymru.

Canolfan Bedwyr

Mae Canolfan Bedwyr wedi cael cartref newydd yn Neuadd Dyfrdwy lle mae'n parhau i rannu ei harbenigedd am y Gymraeg gyda staff, myfyrwyr a phobl ar draws Cymru a'r byd. Dewch draw i Ganolfan Bedwyr am sgwrs - cewch yno fwy o wybodaeth am help i ddefnyddio'r Gymraeg, am ddatblygu a gweithredu polisi, am gyfieithu, am dechnoleg iaith ac am wersi gloywi iaith.

Gwersi iaith

Mae'r Brifysgol yn cynnig gwersi Cymraeg **am ddim** i staff ar bob lefel - o ddechreuwr i'r rhai sy'n rhugl ac eisiau mwy o hyder wrth ysgrifennu. Mae'r tiwtoriaid gloywi iaith wedi'u lleoli yng Nghanolfan Bedwyr (eleri. hughes@bangor.ac.uk) a'r tiwtor Cymraeg i Staff yn Adnoddau Dynol (j.pye@bangor.ac.uk).



Uchod: Rhai aelodau staff y Brifysgol a Chanolfan Bedwyr gydag Angharad Mair yn y seremoni.

Gwaelod: Rhai o staff dwyieithog y Brifysgol, o'r chwith: Dafydd, Keith, Mike, Pearl a Robbie.

Gwasanaethau Technoleg

Trwy gomisiynu a datblygu systemau technoleg gwybodaeth dwyieithog, mae'r Brifysgol yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle priodol hefyd yng nghyd-destun cynnig gwasanaethau ar-lein. Ymhlith y datblygiadau mwyaf diweddar y mae system ddwyieithog ar gyfer talu ffioedd cyrsiau a llety. Datblygiad gwerthfawr arall ydyw'r ffordd y mae Cyfeiriadur Staff y Brifysgol yn dangos pwy sy'n siarad Cymraeg. Rhowch gynnig ar godi'r ffôn yn Gymraeg neu ysgrifennu e-bost syml yn Gymraeg.

Adnoddau Dynol

Mae'r adran Adnoddau Dynol yn cefnogi polisi'r Brifysgol o ran penodi a'r iaith Gymraeg, ac ar gael i gynnig cymorth ac arweiniad gyda hyn. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig nifer fawr o gyfleoedd datblygu drwy gyfrwng y Gymraeg. Un datblygiad cyffrous diweddar fu cwrs arweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd 12 o reolwyr wedi cofrestru ar hwn eleni.

Gwasanaethau Dwyieithog

Mae'r Brifysgol yn falch iawn o'r gwasanaethau dwyieithog y mae'n gallu eu cynnig i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd. Mae system hunanwasanaeth newydd y llyfrgell, er enghraifft, yn ddwyieithog yn ogystal â llinell gymorth Gwasanaethau Technoleg. Wrth gwrs, yr elfen ganolog yng ngwasanaethau dwyieithog y Brifysgol yw ei staff - y rheiny sydd ar gael i gynorthwyo yn y Gymraeg neu'r Saesneg mewn adrannau ac ysgolion ar draws y Brifysgol.

Cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg

Dan arweiniad Wyn Thomas, y Dirprwy Is-Ganghellor, Cyfrwng Cymraeg a'r Gymuned, mae Prifysgol Bangor yn arwain o ran cynnig cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg i fyfyrwyr ac yn chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae mwy o fodiwlau a chysiau cyfrwng Cymraeg ar gael yn y Brifysgol a mwy o fyfyrwyr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mangor nac mewn unrhyw Brifysgol arall ■

SHANKLAND AR EI NEWYDD WEDD

Mae'r gwaith coed a'r dodrefn yn Narllenfa Shankland yn y Llyfrgell wedi cael eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol a gosodwyd goleuadau newydd ar ôl derbyn rhodd gan y Drapers' Company i'r Brifysgol. Mae darllenfa Lloyd hefyd wedi elwa o haelioni'r Drapers' Company gan y rhoddwyd carped newydd yno.

Mae gan y Drapers' Company gysylltiad hanesyddol gyda'r Brifysgol pan gyfrannwyd dros £315,000 i adeiladu'r hyn a oedd yn wreiddiol yn llyfrgell ac amgueddfa, a chyfrannwyd tuag at y costau o osod a gwella'r golau trydan yn yr adeilad yn 1949 a 1962.

Mae eu rhodd sylweddol fwyaf diweddar wedi talu am waith adfer pellach. Os ewch i'r llyfrgell heddiw fe welwch fod y llawr pren a'r dodrefn wedi eu hadnewyddu'n gelfydd ac mae gan y llyfrgell garped newydd llachar.

Gan siarad ar ran y Brifysgol, meddai'r Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes: "Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Drapers am eu cefnogaeth barhaus i'r Brifysgol hon a'n myfyrwyr. Rydym bob amser yn edrych ymlaen at ymweliad blynyddol y Drapers gan ein bod yn gwybod bod ganddynt ddiddordeb mawr yn natblygiadau'r Brifysgol ac wrth eu bodd yn cyfarfod â rhai o'r myfyrwyr sy'n derbyn gwahanol Efrydiaethau."

Sylfaenwyd y Drapers Company



O'r chwith – yn ymweld â llyfrgell Shankland ar ei newydd wedd mae'r– Athro Colin Baker, Dirprwy Is-Ganghellor; Mr David Learmont, Cyfarwyddwr Gwella Busnes; Ms Sue Hodges, Llyfrgellydd y Brifysgol; yr Athro John G Hughes, Is-Ganghellor; Mr Einion Thomas, Archifydd; Cefn – Llyngesydd Alastair Ross, y Clerc, Drapers' Company a Mr Anthony Walker, Y Meistr, Drapers' Company

600 mlynedd yn ôl, ac mae wedi ei ymgorffori trwy Siartr Frenhinol ac yn un o'r deuddeg cwmni lifrau mwyaf yn ninas Llundain. Mae wedi symud gyda'r amser ac wedi datblygu i fod yn sefydliad sy'n rhoi sylw i faterion cyfoes, gan fod yn berthnasol o'r newydd trwy ei swyddogaeth ddyngarol.

Mae'r llyfrgell yn Ystafell Shankland yn cynnwys arfbais y Drapers' Company. Wrth y fynedfa i 'Shankland' o goridor yr Is-Ganghellor, mae arysgrif mewn Lladin sy'n diolch i'r Drapers am y cyllid. Mae hyn hefyd wedi ei adlewyrchu yn y gwaith carreg yn y prif gwad a gellir gweld arfbais y cwmni yn y gwydr lliw yn narllenfa Shankland. Y rhodd hael a dalodd

am y llyfrgell yw'r cyswllt enwocaf o hyd rhwng y Brifysgol a'r Drapers' Company.

Ar hyn o bryd mae'r Drapers' Company yn rhoi oddeutu £40,000 bob blwyddyn i'r Brifysgol i gefnogi gwahanol efrydiaethau PhD, projectau a chronfeydd caledi. Mae hyn wedi cynnwys ymweliad ymchwil blynyddol gan israddedigion trydedd flwyddyn yr Ysgol Gwyddorau Eigion i Goleg William and Mary yn Virginia, yr Unol Daleithiau. Bydd y Meistr a'r Clerc yn ymweld â Bangor yn flynyddol, a gwahoddir dau fyfyrwr a noddir i fynd i'r Cinio Addysg yn y Drapers' Hall ym mis Mawrth bob blwyddyn ■

GWOBR AM RAGORIAETH MEWN YMCHWIL

Mae Prifysgol Bangor wedi ennill gwobr Adnoddau Dynol 'Rhogoriaeth mewn Ymchwil' y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r wobwr hon yn adlewyrchu gwaith parhaus Prifysgol Bangor er mwyn cefnogi ein staff ymchwil.

Mae'r wobwr yn cael ei hasesu gan banel sy'n cynnwys y Comisiwn Ewropeaidd, y Grŵp Strategaeth

Concordat, Vitae, Cymdeithas Staff Ymchwil Prydain a'r Uned Herio Cydraddoldeb. Mae'r wobwr hon yn cydnabod ein hymrwymiad i gyflawni egwyddorion y Concordat i Gefnogi'r gwaith o Ddatblygu Gyrfa Ymchwilwyr a'r Siartr Ewropeaidd ar gyfer ymchwilwyr.

Dywedodd yr Athro David Shepherd,

Dirprwy Is-Ganghellor: "Mae hwn yn gydnabyddiaeth bwysig o waith a wnaed gan y Brifysgol i gefnogi ymchwilwyr. Mae gan y Brifysgol Gynllun Gweithredu ar y gweill i gefnogi datblygiad gyrfa ymchwilwyr ac mae'r Athro Jo Malone Rycroft yn cadeirio grŵp a gefnogir gan Gyfarwyddwyr Ymchwil Colegau i arwain y broses hon." ■

GWOBR ATHENA SWAN

Mae ymrwymiad Prifysgol Bangor i ferched ym maes gwyddoniaeth wedi cael ei gydnabod gyda gwobr genedlaethol.

Mae'r Brifysgol wedi derbyn Gwobr Efydd Athena Swan i gydnabod ei llwyddiant wrth recriwtio, cadw a hyrwyddo merched ym maes gwyddoniaeth, peirianeg a thechnoleg.

Mae Bangor bellach yn un o 38 prifysgol yn y DU sydd wedi ennill gwobr efydd o dan y Siarter ar gyfer Merched mewn Gwyddoniaeth Athena SWAN. Mae'r Siarter yn cymeradwyo arfer dda o ran cyflogaeth i ferched sy'n gweithio ym maes gwyddoniaeth, peirianeg a



Casglwyd y wobwr ar ran y Brifysgol mewn digwyddiad yn Birmingham gan Lyn Meadows, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol (ar y dde) a Dr Rosanna Robinson, Cydlynnydd Dysgu ac Addysgu, Coleg Gwyddorau Naturiol.

thechnoleg yn y sector addysg uwch ac ymchwil.

Dywedodd yr Is-Ganghellor, yr Athro John G Hughes: "Mae'r project Athena Swan, wedi cael cefnogaeth lawn gan Bwyllgor Gweithredol y Brifysgol ac mae'r dyfarniad hwn yn gwella enw da'r Brifysgol ymhellach o ran ymchwil ac addysg mewn gwyddoniaeth. Mae'r wobwr hefyd yn dangos nod y Brifysgol i sicrhau cyfranogiad a chyfraniad yr holl staff."

Bu grŵp, dan arweiniad yr Athro Sian Hope, Cyfarwyddwr Gweithredol Arloesi ac Athro Cyfrifiadureg, a gyda chefnogaeth Nia Gwynn Meacher, Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, yn paratoi'r cyflwyniad a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer mentrau yn y dyfodol ■

ARBENIGWR DATRYS CODAU YN HELPU I ROI DYN ARFOG YN Y CARCHAR

Yn ddiweddar, bu Dr John Olsson, Darlithydd y Gyfraith a Throseddeg yn Ysgol y Gyfraith, o gymorth i'r heddlu yn eu hymdrechion i sicrhau euogfarn saethwr cyfrwys. Ceisiodd Kieron Bryan o Moss Side, Manceinion, brynu tawelwch y gŵr yr oedd wedi'i saethu, Abdou "Shaka" Nyang yn dilyn ffrae dros Porsche Cayenne.

Tra roedd yn cael ei gadw yn y ddalfa yng Ngharchar Strangeways, anfonodd Bryan llythyr at ei chwaer gyda dilyniant o rifau ar y cefn. Dywedwyd wrth ei chwaer am anwybyddu'r rhifau a dywedodd Bryan ei fod wedi bod yn gwneud posau rhifau. Ond yn dilyn archwiliad rheolaidd o'r llythyr, daeth awdurdodau'r carchar yn amheus, ac o ganlyniad estynnodd y ditectifs a oedd yn ymchwilio i'r saethu wahoddiad i'r ieithydd fforensig, Dr Olsson i'w helpu.

Defnyddiodd Dr Olsson raglen gyfrifiadurol arbennig i ddadansoddi'n drylwyr y cyfuniadau rhifol, a daeth i'r canlyniad fod Bryan wedi defnyddio côd cyfrwys. Roedd y system yn defnyddio 23 rhif ar hap yn lle llythrennau ac yn defnyddio rhai rhifau i gymryd lle atalnodaau a llythrennau eraill. Wrth

i Dr Olsson ddadansoddi patrymau'r rhifau ac ynysu'r rhai a ymddangosai amlaf, dechreuodd eiriau ymfurfio o'r niwl rhifol. Credai fod y rhifau mwyaf cyffredin hyn yn cynrychioli'r llythrennau a ddefnyddid amlaf. Daeth trobwynt yn ei ymchwiliad pan ddarganfuwyd gair yn gorffen gyda'r llythrennau 'ease' gyda chymorth rhaglen gyfrifiadurol a ddadansoddodd 840 o gyfuniadau o'r llythrennau mwyaf cyffredin. Penderfynodd Dr Olsson fod 'ease' yn rhan o'r gair 'please', a galluogodd hynny ef i ddynodi llythrennau penodol i rifau arbennig.

Datgelwyd fod y llythyr yn dweud: *'da task has to be completed by any means necessary please. Task – statement from Shaka through independent solicitor sayin the police made him pick me out in da ID parade by giving him a signal – I have already made contact with Shak's bosses ... they want fifteen K for da statement'*.

Mae Dr Olsson wedi gweithio ar dros 400 o achosion yn yr UDA, Canada ac Awstralia, ac mae ei waith yn cynnwys dehongli llythyrau pridwerth a helpu gydag ymchwiliadau i lofruddiaethau,

terfysgaeth, twyll yswiriant, dosbarthiad cyffuriau a masnachu pobl. Dywedodd Dr Olsson wrth y prawf: "Daeth yr heddlu ataf, a chan gofio mai ieithydd ydw i, gofynnais, 'Sut mae o – Kieron Bryan – yn siarad?'"

"Dywedon nhw 'Mae'n hynod o gwrtais', ac fe lynnodd hynny yn fy nghof. Dychmygwch eich bod yn y carchar – rydych yn anobeithiol, ond hefyd yn gwrtais iawn. Mae'r gair 'please' yn saff o godi'i ben.

"Mae'r broses feddwl sydd y tu ôl i'r côd yn dangos bod hwn yn ddyn medrus, hynod o alluog a hynod o ddawnus."

Mewn sgwrs gyda'r *Telegraph*, dywedodd Ditectif Ringyll Neil Haywood o Heddlu Greater Manchester: "Mae'r ffaith fod Bryan yn barod i fynd i'r fath eithafion twyllodrus i gael gadael y carchar yn dangos ei fod yn ddyn peryglus a chraff iawn, ond methodd â thafu llwch i'n llygaid ni a bydd nawr dan glo am amser hir iawn." Yn Llys y Goron Manceinion, dyfarnwyd Bryan yn euog o geisio llofruddio a meddu ar wn gyda'r bwriad o beryglu bywyd a dedfrydwyd ef i 25 mlynedd o garchar ■

Y FFAGL OLYMPAIDD YM MANGOR

Roedd Dr Matthew Davies, Cynorthwydd Ymchwil yn yr Ysgol Gemeg, yn un o nifer o staff, myfyrwyr a graddedigion Prifysgol Bangor a ddewiswyd i redeg gyda'r ffagl Olympaidd. Enwebwyd Matthew gan ei bartner, Lisa, am iddo godi arian ar gyfer elusen o'r enw SOS Affrica.

Dywedodd Matthew, "Roedd yn brofiad anhygoel ac ychydig yn afreal, roeddwn yn ddigon ffodus i redeg dau gymal drwy Fangor uchaf ac roedd y gefnogaeth a dderbyniwyd yn anhygoel. Roedd pobl yn sefyll ar hyd ochrau'r stryd ac yn creu awyrgylch gwych, roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy!"

Am fwy o luniau a storïau sy'n gysylltiedig â'r Gemau Olympaidd ewch i: bangor.ac.uk/olympics/index.php.cy ■



CAEL GWARED AR HOMOFFOBIA A THRAWSFFOBIA MEWN CHWARAEON

Mae Prifysgol Bangor ac Undeb Myfyrwyr Bangor yn falch o gyhoeddi eu bod wedi datgan ymrwymiad i herio gwahaniaethu a mynd i'r afael â cham-drin homoffobig a thrawsffobig mewn chwaraeon trwy lofnodi siartr a lansiwyd yn ddiweddar gan y llywodraeth.

Llofnodwyd Siartr i Weithredu'r Llywodraeth gan Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden Prifysgol Bangor a Jo Caulfield, Llywydd Undeb Myfyrwyr Bangor gan ymrwymo i weithio gyda'i gilydd i wneud chwaraeon ym Mhrifysgol Bangor yn gyfeillgar a chroesawgar i bawb.

Meddai Richard Bennett, Cyfarwyddwr Chwaraeon a Hamdden Prifysgol Bangor:

"Mae'n bleser gennym gefnogi'r fenter hon i wneud chwaraeon yn amgylchedd mwy diogel a phleserus i bawb. Wrth i'r Gemau Olympaidd nesáu mae'n hollbwysig ein bod yn ceisio gwneud chwaraeon yn agored i bawb a gostwng unrhyw rwystrau a all pobl eu hwynebu.



Gall pobl gymryd rhan mewn chwaraeon mewn nifer o wahanol ffyrdd, trwy gyfranogi a hefyd trwy wneud gwaith swyddogol, gweinyddu, hyfforddi a chefnogi. Felly mae angen i ni newid rhai o'r agweddau hen ffasiwn sy'n gysylltiedig â chwaraeon ac adlewyrchu ein cymdeithas fodern amrywiol a chynyddu'r siawns o gael cysylltiad gydol oes gyda chwaraeon".

Mae gan y Siartr restr sy'n tyfu o gefnogwyr yn cynnwys Ben Cohen, Billie Jean King a Martina Navratilova, Stephen Fry a David Furnish ynghyd â'r holl glybiau pêl-droed yn yr Uwch Gynghair

Richard Bennett (chwith) a Jo Caulfield yn llofnodi siartr y llywodraeth.

a'r Gynghair Bêl-droed, y Gymdeithas Bêl-droed, y Gymdeithas Tennis, Bwrdd Criced Cymru a Lloegr, y Gynghair Rygbi Pêl-droed a Phwyllgor Trefnu Llundain o'r Gemau Olympaidd a'r Paralympaidd.

Dangoswch eich bod yn cefnogi'r ymgyrch trwy glicio 'like' ar y dudalen Facebook 'I love sport, but hate homophobia and transphobia' yn: facebook.com/lgbtsportcharter ■

ANGHOFIWCH Y CAR AC EWCH AR Y BEIC

Lansiwyd y cynllun beicio i'r gwaith gan y Brifysgol ym mis Chwefror, a hyd yma, mae bron i 60 o aelodau staff wedi elwa ohono. Mae'r cynllun, a gynigir gan y Brifysgol mewn partneriaeth â P & MM Employee Benefits, yn galluogi staff i brynu beic oddi wrth werthwr annibynnol lleol neu o Halfords.

Mae'r cynllun yn gweithredu trwy drefniant aberthu cyflog, fel y gall y rhai sy'n cymryd rhan arbed o leiaf 32% ar bris beic yn y siopau (mae hynny'n arbediad o £128 ar feic gwerth £400!).

Mae'r cynllun ar gael ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn a bydd y cyfle nesaf i gymryd rhan rhwng 1 a 30 Medi. Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Adnoddau Dynol neu anfonwch e-bost at benefits@bangor.ac.uk

Beth yw barn y bobl sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun?

Meddai **Dr Anita Malhotra**, Ysgol Gyddorau Biolegol:



"Defnyddiais y cynllun i brynu beic trydan, sy'n fwy costus na beic arferol, felly roeddwn wrth fy modd gyda'r arbediad. Rwyf yn byw tua 8.5 milltir y tu allan i Fangor, ac mae'r cymorth trydan yn gwneud byd o wahaniaeth ac yn fy annog i ddefnyddio'r beic. Rwyf hefyd am gael gwared ar fy nghar a chanslo fy aelodaeth yn y gampfa gan fy mod yn awr yn cael ymarfer am ddim!"

Meddai **Clare Brass**, Swyddfa Gyllid: "Rwyf ar hyn o bryd yn beicio i'r gwaith tua 70% o'r amser, dim ond os yw'r tywydd yn braf! Mae fy nhaith ychydig dros bedair milltir a dim ond tua 5 munud yn fwy na phe bawn yn dod mewn car gan nad oes unrhyw draffig ar hyd y ffordd. Mae tua 90% o fy nhaith ar lwybr seiclo pwrpasol.

Anita yn cyrraedd ei gwaith ar ei beic trydan.

Rwy'n mwynhau teithio i mewn, yn enwedig wrth fynd heibio gorsaf betrol a gweld y prisiau! Mae'r beicio yn rhoi hwb o nerth i mi pan fyddaf yn cyrraedd fy ngwaith yn y bore ac ar ôl mynd adref ar ddiwedd y dydd. Mae hefyd yn clirio fy mhen ac yn fy rhoi mewn hwyliau da. Gan nad ydwyf yn berson sy'n hoffi mynd i'r gampfa, gallaf gael ymarfer corff bob dydd heb orfod gwneud 'oriau ychwanegol' ar ôl gorffen gwaith. Mae beicio wedi codi fy hyder hefyd - rwy'n ofnus am seiclo gyda'r nos, ond ar ôl beicio i'r gwaith drwy'r haf, byddaf yn barod amdani pan ddaw'r hydref!" ■



'IT'S A KNOCKOUT'

Fe wnaeth staff Maesglas, ynghyd a 15 tîm arall, gystadlu yn nigwyddiad 'It's a Knockout' ym Mharc Eirias, Bae Colwyn yn ddiweddar. Cafodd y tîm, a oedd hefyd yn cynnwys rhai ffrindiau ac aelodau teulu, ddiwrnod llawn hwyl a llwyddo i godi £400 at elusen Tŷ Gobaith ■

Cyhoeddwr Newyddlen gan Adran Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata o'r Brifysgol.
Dylid anfon unrhyw eitem i'w cynnwys yn y rhifyn nesaf o Newyddlen **erbyn 17 Medi** at Swyddfa'r Wasg
e-bost: ywasg@bangor.ac.uk © Prifysgol Bangor. Cysylltwch â'r Swyddfa Wasg am ganiatâd i atgynhyrchu unrhyw erthygl.
Ceir newyddion diweddar o'r Brifysgol ar www.bangor.ac.uk/news/current.php.cy

[@prifysgolbangor](https://twitter.com/prifysgolbangor) [@NewyddionBangor](https://twitter.com/NewyddionBangor)

